



Drwy e-bost at bob ysgol a choleg yng Nghymru

24 Tachwedd 2020

Annwyl Bennaeth Canolfan,

Parthed: Asesiadau nad ydynt yn arholiadau (NEA) a chyfres mis Ionawr

Wrth anfon y llythyr hwn, rwy'n gobeithio eich bod chi'n ddiogel ac yn iach. Mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol i bawb, ac rydym yn cydnabod y gwaith caled y mae canolfannau'n ei wneud i ddarparu amgylchedd diogel i ddysgwyr a staff a'r ymrwymiad i sicrhau'r bod cymaint o amser â phosibl ar gyfer addysgu a dysgu.

Yn dilyn penderfyniad polisi'r Gweinidog Addysg i ganslo arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021 rydym wedi parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid i lywio ein syniadau. Rydym wedi trafod arholiadau mis Ionawr ac NEA gyda'r Grŵp Cyngori ar Ddylunio a Chyflawni ac mae ein penderfyniadau'n cyd-fynd â'r safbwyntiau a fynegwyd yn y grŵp hwn. Gallaf gyhoeddi mai'r [penderfyniad](#) ynghylch y ffordd ymlaen ar gyfer arholiadau mis Ionawr ac NEA yw:

1. Bydd asesiadau nad ydynt yn arholiadau (NEA) yn parhau i gael eu cynnwys ac yn rhan o'r model asesu ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch yn 2020-2021.
2. Mae cyfres arholiadau mis Ionawr – Asesiadau uned ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Gymraeg, Llenyddiaeth Saesneg a TGCh wedi'u canslo. Bydd asesiadau eraill a gynlluniwyd yn mynd rhagddynt.

Fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau yng Nghymru, ein rôl ni yw amddiffyn dysgwyr a meithrin hyder y cyhoedd.

Gan gydnabod yr aflonyddwch parhaus mewn canolfannau, byddwn yn parhau i ymgysylltu â chanolfannau a chyhoeddi gwybodaeth ar haf 2021 wrth iddi ddod i law, gan rannu gwybodaeth yn uniongyrchol â chi, ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n [gwefan](#).

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein gwaith, mae croeso i chi gysylltu â ni ar cyfathrebu@cymwysteraucymru.org.

Rwy'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.

Yn gywir



Philip Blaker

Prif Weithredwr

